18 Ebrill/April – 06 Gorffanaf/July 2014

Artistiad Cyfranno/Participating Artists:
Robert Barry, Gabriele De Santis
Jan Dibbets, Ane Mette Hol
Jonathan Monk & Kirsten Pieroth

Gennym ni bost
We've got mail

Gennym ni bost
We've got mail

18 Ebrill/April – 06 Gorffanaf/July 2014

Artistiad Cyfranno/Participating Artists:

Robert Barry
Gabriele De Santis
Jan Dibbets
Ane Mette Hol
Jonathan Monk
Kirsten Pieroth

&

Arddangosfa hanesyddol o
arteffactau, dogfennau a lluniau
o'r Post Brenhinol a hanes MOSTYN

An historical display of artefacts,
documents and images of the
Royal Mail and the history of MOSTYN

MOSTYN

Postio: Gennym ni bost

Cyn y 1950au, roedd post yn cael ei ystyried yn bennaf fel cyfrwng cyfathrebu a defnyddiwyd y gwasanaeth post fel dull o anfon gweithiau celf ar hyd a lled y byd ar gyfer eu harddangos. Ar ôl y cyfnod hwn, trosodd y mudiad Fluxus a'r artistiaid cysylltiedig â genedigaeth celfyddyd gysyniadol y gwasanaeth post a phost yn adnoddau ar gyfer gwneud gweithiau celf. Ffynnodd y syniadau seiliedig ar bost a'i swyddogaeth, yn rhannol oherwydd ei naws farddonol, y ffaith ei fod yn atyniadol o ran cost a defnydd, ei athroniaeth drws i ddrws a'i uniongyrchedd.

Yn y byd yn gyffredinol, mae poblogrwydd cynyddol y ffôn ac, yn arbennig, y Rhyngrwyd, wedi achosi dirywiad mewn defnydd o bost fel ffordd o siarad ag eraill ac estyn allan atynt. Fodd bynnag, yn y celfyddydau gweledol, mae artistiaid yn dal i edrych ar ddefnydd buddiol post fel cyfrwng i fynegi syniadau artistig. Mae rhai artistiaid yn ei ddefnyddio fel cyfrwng i adfywio ysbryd celfyddyd gysyniadol, tra bo eraill yn defnyddio'r post fel pe bai'r gwasanaeth dal yn un hyfyw iawn; yn llawn cyfleoedd newydd a photensial heb ei ddarganfod.

Ond beth yw perthnasedd y post i MOSTYN?

Y llynedd, cynhaliwyd y cyntaf gennym mewn cyfres o arddangosfeydd yn astudio hanes MOSTYN a'i adeilad, gan edrych ar sut mae'r hanes hwnnw'n clymu i ddigwyddiadau y tu hwnt i'r cyd-destun lleol. Roedd yr arddangosfa honno, gyda'r teitl 'Women's Art Society', yn ystyried agoriad yr adeilad yn 1901 gan y Fonesig Augusta Mostyn. Ar y pryd, roedd yr oriel ar gyfer cyflwyno gweithiau celf gan artistiaid benywaidd yn unig, y cyfeiriwyd atynt gyda'i gilydd fel y 'Gwynedd Ladies' Art Society'. Datblygais y gyfres hon o arddangosfeydd er mwyn cyflwyno a rhoi sylw i hanes cyfoethog MOSTYN, fel bod y gynulleidfa leol yn cael astudio'u gorffennol eu hunain ac i hybu hanes MOSTYN ymhlith cynulleidfa genedlaethol a rhyngwladol. Roedd statws blaenorol un o'r orielau fel swyddfa ddidoli gan y Post Brenhinol o ddiddordeb mawr i mi.

Mae 'We've Got Mail' yn barhad yn y gyfres hon a grybwyllwyd, yn ail bennod. Efallai hefyd ei bod yn graffach na'r cyntaf, o ystyried ei bod yn ymateb i'r cyd-destun y mae'n cael ei chynnal ynddo. Arferai Oriel 1, lleoliad yr arddangosfa, fod yn swyddfa ddidoli post ac ehangwyd orielau MOSTYN iddi yn 2010.

Gan Adam Carr,
Curadue Rhaglen Celfyddydau Gweledol, MOSTYN

18 Ebrill/April – 06 Gorffanaf/July 2014

I roi sylw i swyddogaeth Oriel 1 yn y gorffennol fel swyddfa ddidoli post, mae'r arddangosfa'n cyflwyno nifer o enghreifftiau arwyddocaol yn hanesyddol o weithiau celf gan artistiaid sydd wedi defnyddio'r post, ynghyd â gweithiau mwy diweddar. Mae'n cyflwyno gweithiau celf gan Robert Barry, Gabriele de Santis, Jan Dibbets, Ane Mette Hol, Jonathan Monk a Kirsten Pieroth.

Mae gwaith Robert Barry, Invitation Piece, yn waith celf allweddol mewn oes pryd dechreuodd y gwasanaeth post gael ei ddefnyddio fel cyfrwng ar gyfer creu celf. Cynhyrchwyd y gwaith yn 1972 ac mae'n cynnwys 8 cerdyn gwahoddiad a gyhoeddwyd gan 8 oriel ryngwladol yr oedd Barry yn gweithio â hwy ar y pryd. Gan weithredu'n wahanol i gyhoeddiadau orielau, ond eto'n cadw at eu hunaniaeth weledol, roedd pob cerdyn gwahoddiad yn cyhoeddi arddangosfeydd unigol gan yr artist mewn oriel arall. Roedd Oriel Paul Maenz yn Cologne yn eich gwahodd chi i arddangosfa yn Art & Project yn Amsterdam, a oedd, yn ei thro, yn cyhoeddi arddangosfa yn Oriel Jack Wendler yn Llundain. Oddi yno, roedd y siwrnai'n parhau i orielau yn Efrog Newydd, Paris, Brwsel, Milan, Turin, ac yna'n ôl i Cologne. Roedd hwn yn feri-go-rownd artistig fel petai, yn cynnig arddangosfeydd dilynol yn symud o amgylch y byd celf: rhwng mis Tachwedd 1972 a mis Mehefin 1973. Pe baech yn digwydd ymweld â'r orielau yn ystod y cyfnod hwn, nid oedd unrhyw weithiau celf yn cael eu harddangos gan Barry yn eu gofod. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith yn cael ei arddangos ar ffurf cylch o'r 8 cerdyn gwahoddiad. Mae'r cardiau'n gweithredu fel olion o ddigwyddiadau nad ydynt yn digwydd, wedi'u coreograffu i gyd gan yr artist er mwyn creu celf o'r broses bostio a ddefnyddir i fynegi ei syniadau.

Mae'r darn gan Jonathan Monk yn trawsnewid effemera'r oriel yn waith celf hefyd. Y teitl yw Picture Post Card Posted from Post Box Pictured, ac mae'r gwaith hwn gan yr artist Prydeinig sy'n gweithio yn Berlin, Jonathan Monk, yn rhan o gyfres o ddarnau o gardiau post. Hyd yma, mae'r gyfres yn cynnwys darnau a wnaed ar gyfer lleoliadau yn Efrog Newydd, Llundain, Brwsel a Pharis, ymhlith llefydd eraill. Mae pob fersiwn o'r cerdyn yn dangos llun o'r blwch postio sydd agosaf at yr oriel, y sefydliad neu'r siop lyfrau y mae wedi'i gynhyrchu ar ei gyfer. Mae'r fersiwn hwn wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer MOSTYN ac mae'n dangos llun y blwch postio sydd y tu allan i'r Swyddfa Bost, drws nesaf i'r oriel. Mae'r cardiau post ar werth. Ar ôl i rywun ei brynu, mae'r artist yn llofnodi'r cerdyn ac yna'n ysgrifennu'r cyfeiriad a'r neges a ddewisir gan y prynwr arno. Wedyn, mae'r cerdyn post yn cael ei bostio o'r blwch postio sydd ar y cerdyn post.

Mae synnwyr digrifwch a chodi amheuon yn amlwg hefyd mewn gweithiau gan Jan Dibbets a Gabriele de Santis. Roedd Jan Dibbets, fel Barry, yn aelod o grŵp o artistiaid fu'n gyfrifol am sefydlu celfyddyd gysyniadol. Mae ei waith yn debyg mewn ffyrdd eraill i waith Barry, gan ei fod yntau hefyd yn edrych ar syniadau'r digwydd a'r diffyg digwydd, ac yn y fan yma yn benodol ar gynhyrchu a chyfleu ystum artistig ar ffurf cyhoeddiad. Mae On May 9, 1969 yn cynnwys cerdyn post dwyochrog, a gyhoeddwyd gan y curadur a'r prynwr a'r gwerthwr gweithiau celf, Seth Siegelaub, sef y sbardun i gynhyrchu mwyafrif y prosiectau cysyniadol a'r gweithgareddau tebyg ar y pryd. Ar y cefn, mewn pedair iaith, mae'r cerdyn post yn datgan 'On May 9 (friday), May 12 (monday) and May 30 (friday) 1969 at 3:00 Greenwich Mean Time (9:00 EST) Jan Dibbets will make the gesture indicated on the overside at the place marked "X" in Amsterdam, Holland.' Mae tu blaen y cerdyn post yn dangos y lleoliad lle gwneir yr ystum, a hefyd llun o'r artist yn codi un bawd. Mae'r artist yn trawsnewid ystum pob dydd yn ddigwyddiad gan ddefnyddio'r gwasanaeth post fel cyfrwng i gyhoeddi, prosesu a chynhyrchu'r gwaith fel darn o gelf. Felly, nid yw'r cerdyn post na'r gwasanaeth post yn eilradd i'r gwaith celf, ond yn rhan greiddiol ohono.

Mae gwaith Gabriele de Santis ar gyfer yr arddangosfa, comisiwn newydd, yn dangos beth sydd fel rheol yn eilradd ac yn ategol i weithiau celf. Mae'n cynnwys plinth arddangos; dyfais arddangos llonydd a ddefnyddir yn draddodiadol i gyflwyno darn o gelf. Mae'r artist yn troi'r plinth yn flwch postio drwy greu bwlch yn y plinth, ac mae dwy olwyn yn gwneud iddo ymddangos fel pe gallai symud ar unrhyw adeg. Gellid edrych ar y darn hwn fel cyfeiriad at dranc y gwasanaeth post, oherwydd byddai unrhyw lythyr a fyddai'n cael ei bostio yma'n syrthio allan drwy'r gwaelod. Mae'r gwaith celf yn cael ei wrthod, felly, fel plinth ac fel blwch postio.

Mae breguster gweithiau celf a phost yn themâu yng ngwaith Ane Mette Hol hefyd. Llun wedi'i dynnu ar bapur yw hwn, sy'n datgan yn syml 'Handle with care', sy'n efelychu'r rhybudd a geir yn aml ar gratiau a pharseli nwyddau. Fe'i cynhyrchwyd yn wreiddiol ar gyfer casgliad Amgeuddfa Gelf Trondheim, lle mae fersiwn arall o'r gwaith yn cael ei arddangos ar hyn o bryd. Mae'r darn yn chwarae gyda'r rheolau sy'n berthnasol i symud a gofalu am gasgliad o weithiau celf. Yn yr amgueddfa yn Trondheim, mae'r gwaith wedi'i osod fel rhan o arddangosfa unigol yr artist. Mae wedi'i ludo'n uniongyrchol ar y wal, sy'n torri pob rheol cadwraeth. Yn anochel, bydd y broses o'i dynnu i lawr ar ddiwedd yr arddangosfa a'i osod yn rhywle arall yn achosi newidiadau i'r darn, felly bydd yn edrych fymryn bach yn wahanol bob tro y bydd yn cael ei arddangos. Yn MOSTYN bydd yn cael ei ddangos yn ystod pedair rhan We've Got Mail, rhwng 2014 a 2017. Bydd ein technegwyr ni mor ofalus â phosib wrth dynnu'r gwaith oddi ar y wal, yn union fel mae gweithwyr y gwasanaeth post yn ceisio gwarchod diogelwch ein post. Fodd bynnag, mae newid a dirywiad yng ngwaith Hol yn anochel yma.

Mae gwaith yr artist o'r Almaen, Kirsten Pieroth, Letter of An Inventor yn rhan o grŵp o ddarnau sy'n edrych ar waith y dyfeisiwr Thomas Alva Edison. Gan Edison mae'r record o hyd am y nifer mwyaf o batentau i gael eu cofrestru, er hynny, does dim sicrwydd ynghylch pa mor gynhyrchiol oedd ef mewn gwirionedd. Fel ei fan cychwyn, mae'r gwaith hwn yn defnyddio'r ymadrodd "I regret that a previous engagement prevents me from accepting your kind invitation to dinner at your home, on Thursday evening, September seventeenth," sydd wedi dod o lythyr gwreiddiol gan Edison. Mewn cyfres o lythyrau, mae Pieroth yn ceisio gweld a yw'r esgus a roddodd Edison dros wrthod y gwahoddiad yn un ffug, ac wedyn mae'n ceisio rhoi patent ar yr esgus (yn aflwyddiannus) fel dyfais. Mae'n gwbl nodweddiadol o waith Pieroth; defnyddio gwrthrychau a deunyddiau sy'n bodoli eisoes a'u tynnu oddi wrth ei gilydd, yn llythrennol yn aml iawn, i achosi cadwyn absŵrd i raddau o gysylltiadau ac i ddatgelu ystyron newydd.

Yn ychwanegol at weithiau celf, mae'r arddangosfa'n cyflwyno arteffactau, dogfennau ac effemera sy'n seiliedig ar y defnydd blaenorol o'r oriel fel swyddfa ddidoli, ac yn seiliedig ar hanes y Post Brenhinol ei hun. I'w gweld mae detholiad o'r arddangosfa Designs on Delivery – Posteri'r GPO rhwng 1930 a 1960 gan Wasanaeth Amgueddfa ac Archifau Post Prydain, ffotograffau o'r archif, a chasgliad o stampiau o'r gorffennol tan y presennol. Mae'r elfennau hyn i gyd yn cyfuno i roi darlun o'r gwasanaeth post fel rhan o fywyd pob dydd ac i dynnu sylw at y rôl bwysig y mae wedi'i chwarae mewn cymdeithas.

Rwyf wedi rhoi'r ddwy elfen yn eu lle, yr hanesyddol a'r cyfoes, fel eu bod yn ategu ei gilydd ac, yn bwysicach na dim, fel eu bod yn cysylltu â'i gilydd. Mae'r cyntaf yn galluogi i MOSTYN arddangos ei chefndir cyfoethog ac unigryw ac mae'r olaf yn dangos sut mae hanes y safle a'r lle yn gallu bod yn fan cychwyn ar gyfer arddangosfeydd o gelf gweledol cyfoes. Gyda'i gilydd, mae pont rhwng y gorffennol a'r presennol yn cael ei chreu ac rydym yn cael agor y drws ar hanes ac ar y gymdeithas sy'n bodoli heddiw, a'u harchwilio a'u profi o'r newydd.

Posting: We've got mail

In the Visual Arts, prior to the 1950s, mail was primarily seen as a means of communication and the postal service was used as a method of sending works of art across the globe. After this time, the Fluxus movement and artists associated with the birth of conceptual art transported mail and the postal service into tools for artmaking. Ideas around mail and its function flourished, in part, due to its poetic gesture, its attractiveness of cost and use, its door-to-door philosophy and its immediacy.

In the world at large, the rising popularity of the telephone and particularly the Internet, has caused a decline in the usage of mail as way of talking to and reaching out to others. In the visual arts, however, artists are still looking at the fruitful use of mail as a medium for artistic expression. Some artists use it as a means of revitalising the spirit of conceptual art, while others use postal mail as if the service were still buoyant; full of new opportunity and undiscovered potential.

What is the relevance of postal mail, though, to MOSTYN?

Last year, we held the first in a series of exhibitions examining the history of MOSTYN and its building, looking at how that history is tied to events beyond the local context. That exhibition, titled 'Women's Art Society', considered the inauguration of the building in 1901 by Lady Augusta Mostyn. At the time, the gallery was dedicated exclusively to the presentation of artwork by female artists, known collectively as the 'Gwynedd Ladies' Art Society'. I developed this series of exhibitions to address and present MOSTYN's rich history, to give the local audience an insight into their own past and to promote MOSTYN's history to a national and international audience. The former status of one of the galleries as a Royal Mail sorting office was a particular interest of mine.

'We've Got Mail' is a continuation in this mentioned series, a second chapter. It is also perhaps a more acute take than the first, given that it responds to the context in which it takes place. Gallery 1, where the exhibition is situated, was formerly a postal sorting office into which MOSTYN's galleries were expanded in 2010.

18 Ebrill/April – 06 Gorffanaf/July 2014

By Adam Carr
Visual Arts Programme
Curator, MOSTYN

As a way of addressing the past function of Gallery 1 as a mail sorting office, the exhibition introduces a number of historically significant examples of artworks by artists who have utilised postal mail, together with more recent works. It presents artworks by Robert Barry, Gabriele de Santis, Jan Dibbets, Ane Mette Hol, Jonathan Monk and Kirsten Pieroth.

Robert Barry's work 'Invitation Piece' is a key artwork in an era when the postal service began to be used as a medium for artmaking. Produced in 1972, the work consists of 8 invitation cards issued by the 8 international galleries that Barry was working with at the time. Functioning differently to gallery announcements, but still in keeping with their visual identity, each invitation card declared solo exhibitions by the artist in another gallery. Paul Maenz Gallery in Cologne invited you to an exhibition at Art & Project in Amsterdam, which in turn announced an exhibition at Jack Wendler Gallery in London. From there, the journey continued to galleries in New York, Paris, Brussels, Milan, Turin, then returned to Cologne. This was an artistic merry-go-round, which appeared to offer consecutive exhibitions moving clockwise round the artworld: from November 1972 until June 1973. If you happened to visit the galleries during this time, no artworks were actually being shown by Barry within their gallery spaces. Currently, the work is exhibited as a circular alignment of the 8 invitation cards. The cards act as traces of non-occurring events, all choreographed by the artist to create work from the mailing process used to convey his ideas.

The piece by Jonathan Monk also transposes gallery ephemera into a work of art. Titled 'Picture Post Card Posted from Post Box Pictured', this work by Berlin based British artist Jonathan Monk is part of a series of postcard edition pieces. To date, the series includes editions made for venues in New York, London, Brussels and Paris, among others. Each version of the edition depicts an image of the closest postbox to the gallery, institution or bookshop that it is produced for. This version has been produced for MOSTYN and features the postbox outside the Post Office, next door to the gallery. The postcard editions are offered for sale. After purchase, the artist signs the card then writes the address and message chosen by the buyer. The postcard is then posted from the postbox pictured on the postcard.

A sense of humour and the provoking of doubt is also evident in works by Jan Dibbets and Gabriele de Santis.

Jan Dibbets was, like Barry, part of the group of artists synonymous with the birth of conceptual art.
His work casts other similarities to Barry's in that his practice also looks at ideas of event and non-event, here the production and capturing of an artistic gesture in the form of an announcement. 'On May 9, 1969' consists of a two-sided postcard, published by curator and art dealer Seth Siegelaub, who was the driving force behind the production of the majority of conceptual projects and like-minded activities at the time. On the reverse side, in four languages, the postcard states 'On May 9 (friday), May 12 (monday) and May 30 (friday) 1969 at 3:00 Greenwich Mean Time (9:00 EST) Jan Dibbets will make the gesture indicated on the overside at the place marked "X" in Amsterdam, Holland.' The front of the postcard depicts the place where the gesture will be made, coupled with an image of the artist holding up one thumb. The artist transforms the making of an everyday gesture into an event, using the postal service as a means to announce, process and produce the work as art. Therefore, both the postcard and postal service are not secondary to the artwork, but are an integral part of it.

Gabriele de Santis's work for the exhibition, a new commission, animates what is usually secondary and supportive to artworks. It comprises an exhibition plinth; a stationary display device traditionally used to present an art object. The artist turns this museum standard into a postbox by creating a gap in the plinth, and a pair of wheels makes it appear as though it could move at any moment. This piece could be a seen as a reference to the demise of the postal service, as any letter posted here would fall out of the bottom. The artwork is rejected, therefore, as both a plinth and as a postbox.

Issues of fragility with regard to artwork and postal mail are themes in Ane Mette Hol's work as well. This piece is a drawing on paper simply stating 'Handle with care', which mimics the warnings usually found on shipping crates and parcels. It was initially produced for Trondheim Art Museum's collection, where another version of the work is currently on show. The piece plays with the dos and don'ts of handling and taking care of a collection of artworks. At the museum in Trondheim the work is installed as part of the artist's solo exhibition. It is glued directly to the wall, which breaks all conservation rules. Inevitably, the process of de-installation and re-installation will cause changes to the piece, therefore it will take on a slightly altered appearance each time it is shown. At MOSTYN it will be shown over the four parts of We've Got Mail, which take place between 2014 and 2017. Our technicians will be as careful as possible when they remove the work from the wall, just as the employees of the postal service try to ensure the safety of our mail. However, change and deterioration of Hol's work is inescapable here.

German born artist Kirsten Pieroth's work 'Letter of An Inventor'is part of group of pieces exploring the inventor Thomas Alva Edison. Edison still holds the record for the most patents registered, although much myth surrounds the reality of his productivity. This work takes as its starting point the phrase "I regret that a previous engagement prevents me from accepting your kind invitation to dinner at your home, on Thursday evening, September seventeenth," taken from an original Edison letter. In a series of correspondences, Pieroth tries to find out if the excuse with which Edison declines the invitation is an invented one, and then tries to patent the excuse (unsuccessfully) as an invention. It is entirely characteristic of Pieroth's practice in that it takes existing objects and materials and deconstructs them, often with a literal approach, to cause a somewhat absurd chain of associations and unearth new meaning.

In addition to artworks, the exhibition presents artefacts, documentation and ephemera from the gallery's previous use as a sorting office, as well as from the history of the Royal Mail itself. On view is a selection from the exhibition Designs on Delivery - GPO Posters from 1930 to 1960 by The British Postal Museum & Archive, archival photographs, and a collection of stamps from the past to the present. All of these elements mingle to give a picture of postal mail in everyday life and to highlight the important role that it has played in society.

I have put in place both components, the historical and the contemporary, in order that they complement each other and most importantly that they connect together. The former allows MOSTYN to illustrate its rich and unique background, whereas the latter shows how this history of site and place can be used as a starting point for exhibitions of contemporary visual art. Together, a bridge between past and present is formed, allowing history and current society to be opened out, examined and experienced anew.

Ar Uniongyrchedd

Mae'r posibiliadau sydd gennym heddiw o gael ymwneud yn uniongyrchol â rhywun neu rywbeth ar unwaith ac ansawdd hynny wedi arwain at synnwyr hollgynhwysol o frys, ac mae hynny'n seiliedig ar gyffro.

I ryw raddau rydym wedi llwyddo i gefnu ar ffiniau daearyddol drwy gywasgu amser a gofod; rwy'n gallu cael gafael ar unrhyw beth unrhyw bryd, ni waeth lle ydw i, a drwy wneud hynny, rwyf yn dod â gwybodaeth, nwyddau a gwasanaethau'n nes ac yn nes. Ym myd masnach, y nod yw cau'r bwlch rhwng archebu a danfon ac mae pob math o dechnoleg yn cael ei ddefnyddio; awyrennau cargo, beltiau cludo, fflydoedd o dryciau, systemau lloeren GPS, ceir trydanol, meteorolegwyr ar y safle, monitro amodau tymheredd a golau a sganio codau bar. Mae gweithwyr llaw di-grefft hefyd yn cael eu defnyddio, ynghyd â beics. Mae'r amrywiaeth yn eang.

Wedi dweud hynny, i raddau helaeth byddaf yn anwybyddu sut mae pethau'n gweithio er mwyn gwireddu'r uniongyrchedd hwn. Mae synthesis y seilwaith dosbarthu (y swyddfa bost leol neu gyfleusterau didoli post, yn ogystal â'r busnesau rhyngwladol fel FedEx neu Amazon), technolegau perchnogol a systemau gwybodaeth berthynol sy'n golygu bod archebu, nôl, dosbarthu a danfon nwyddau yn realaeth feunyddiol i fi, ac i filiynau o bobl eraill, yn creu system wallgof ac effeithlon o reolaeth, gydag amserlenni pendant y mae'n rhaid i gwmnïau a'u gweithwyr eu dilyn.

Ar ben hynny, nid oes gennyf unrhyw syniad ynghylch cynaliadwyedd y diwylliant o uniongyrchedd. Fel y dywedodd Clare Lyster yn ei thraethawd o'r enw 'The Logistical Figure' yn rhifyn 47 o Cabinet, os na fydd pâr o esgidiau rwyf wedi'u harchebu yn ffitio, byddaf yn eu dychwelyd. Dim ots am y miloedd o filltiroedd maen nhw wedi gorfod eu teithio i gyrraedd. Mae hi'n dadlau "Ni ddywedodd neb fod logisteg yn gynaliadwy".

18 Ebrill/April – 06 Gorffanaf/July 2014

Alfredo Cramerotti
Cyfarwyddwr, MOSTYN

Serch hynny, mae llwybr dwyffordd logisteg yn adlewyrchu elfen ddifrodol ddeublyg. Un ffactor yw bod yr ymgyrch gyson i wella'r 'rheolaeth i leihau gwallau' gan y rheini sy'n darparu ac yn cylchredeg arian o'r seilweithiau dosbarthu wedi gwaethygu fy agwedd ddifater at y diwylliant o uniongyrchedd; nid wyf yn malio mwyach, oherwydd mae'n debyg nad oes gen i fawr ddim i'w golli. Mae fy unigoliaeth wedi llyncu'r holl rwystrau posibl gallaf feddwl amdanynt. Mae bodolaeth system mor gymhleth ac effeithlon yn golygu bod syniad yn torri ar draws gwareiddiadau, economïau, sefydliadau cyfreithiol a strwythurau pŵer. Heb sôn am dechnoleg y cludo ei hun - mae elfen ffisegol cysylltu pobl â phobl eraill, gyda nwyddau, gwybodaeth a gwasanaethau felly yn bosibl ond hefyd yn broffidiol dros ben i rai.

Rwyf rhwng dau feddwl. Os byddaf yn cau fy llygaid ar y broses sy'n dod â'r canlyniad i mi, ydy hyn yn golygu fy mod hefyd yn wydn i ba newid bynnag a all ddigwydd? A ydy hynny'n golygu bod gen i'r cyfle annisgwyl i feddwl amdanaf fy hun mewn fflwcs parhaol, fel y nwyddau, y wybodaeth a'r gwasanaethau mae'r system logisteg yn eu danfon ataf fi? Ydw i'n dod yn eitem fy hun? Ydw i'n eitem yn barod, er nad wyf yn barod i gydnabod hynny eto?

On Immediacy

The current possibility and quality of bringing one into unmediated and instant involvement with someone or something has given rise to an all-encompassing sense of urgency, coupled with an underlying excitement.

To some extent, we succeeded in forsaking geographical boundaries by compressing time and space; I can have anything at any time, regardless of my geographical location, and in doing so, I bring ever-closer information, goods and services. In commerce, the gap between order and shipping is aiming for a virtual zero and a variety of technology is employed; cargo planes, conveyor belts, truck fleets, GPS satellite systems, electric cars, on-staff meteorologists, temperature and light condition monitoring and barcode scanners. Low-skilled manual labour is also used, together with bicycles. The range is vast.

This being said, I largely ignore how things work to make this immediacy possible. The synthesis of the distribution infrastructure (the local Post Office or mail sorting facilities, as well as the transcontinental businesses such as FedEx or Amazon), proprietary technologies and relative information systems that make the ordering, retrieving, shipping and delivery of goods an everyday reality for me, and millions of others, constitute a well-oiled maniacal system of control, with strictly regimented time schedules that companies and their workers are subject to.

Furthermore, I lack any consciousness about the sustainability of the culture of immediacy. As recounted by Clare Lyster in her essay aptly titled 'The Logistical Figure' in issue number 47 of Cabinet, if a pair of shoes I order doesn't fit, I send the shoes back. Never mind the thousands of miles they have travelled to reach me: "No one said logistics is sustainable", she argues.

18 Ebrill/April – 06 Gorffanaf/July 2014

Alfredo Cramerotti
Director, MOSTYN

However, the two-way route of logistics is mirroring a double existential take. For one, the ever-improving 'error minimising control' of those providing and monetising from the infrastructures of distribution has exacerbated my apathetic attitude towards the culture of immediacy; I no longer care, because there is little I can lose, apparently. My individualism has absorbed all the potential obstacles I can think of. The very existence of such a complex and efficient system means that an idea cut across civilisations, economies, legal set-ups and power structures. Not to mention the technology of transportation itself – the physicality of connecting humans to other humans, with goods, information and services thus becoming not only achievable but also enormously profitable for some.

I am of two minds. If I become ignorant of the process that brings me the result, does this make me also resilient to whatever change may happen? Does it mean I have the sudden opportunity to think of myself in perennial flux, like the goods, information, and services that the logistics system is delivering to me? Am I becoming an item myself? Am I already one, though not quite ready for acknowledgement?

Gweithiau Celf yn yr Arddangosfa
Artworks in the Exhibition

Robert Barry (1936-)
Invitation Piece, 1972/3
dimensiynau amrywiol/various dimensions
cardiau gwahoddiad/invitation cards
casgliad preifat/private collection, Berlin

Gabriele de Santis (1983-)
Dear Adam, 2014
110 x 22 x 22 cm
plinth arddangos, olwynion sglefrio/exhibition plinth, skate wheels
drwy garedigrwydd yr artist a Frutta, Rhufain/courtesy of the artist and Frutta, Rome

Jan Dibbets (1941-)
On May 9, 1969
10 x 7 cm
cerdyn post/Postcar
casgliad preifat, Berlin/private collection, Berlin

Ane Mette Hol (1983-)
Untitled (Handle With Care), 2013
10 x 7 cm
pensil lliw ar bapur/coloured pencil on paper
drwy garedigrwydd yr artist/courtesy of the artist

Jonathan Monk (1969-)
Picture Post Card Posted From Post Box Pictured, 2014
10 x 15 cm
cerdyn post/postcard
drwy garedigrwydd yr artist a MOSTYN, Cymru/courtesy of the artist and MOSTYN, Wales

Kirsten Pieroth (1970-)
Letter of An Inventor, 2003
93 x 160 x 59 cm/38 x 44 cm
llythyrau/letters
drwy garedigrwydd yr artist a Klosterfelde, Berlin
courtesy of the artist and Klosterfelde, Berlin

Cydnabyddiaethau
Acknowledgements

Cynhyrchwyd y choeddiad hwn I gyd-fynd a'r arddangosfa/This publication has been produced to accompany the exhibition

Gynnym Ni Bost
We've Got Mail

Curadwyd gan/Curated by:
Adam Carr, Curadue Rhaglen Celfyddydau Gweledol/Visual Arts Programme Curator, MOSTYN

Artisiaid/Artists:
Robert Barry, Gabriele De Santis, Jan Dibbets, Ane Mette Hol, Jonathan Monk, Kirsten Pieroth
& Arddangosfa hanesyddol o arteffactau, dogennau a lluniau o'r Post Brenhinol a hanes MOSTYN
An historical display of artefacts, documents and images of the Royal Mail and the history of MOSTYN

Historical research: Sarah Williams

Publication © MOSTYN and the authors

Prawf darllen/Proofreading: Jane Matthews

Cyfeithu/Translation: Cymen

Dylunio/Design: Elfen

Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn yn gyfan nac yn rhannol mewn unrhyw ffurf heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cyhoeddwyr./No part of this publication may be reproduced or transmitted in whole or in part in any form without prior permission in writing from the publishers.

Cydnabyddiaethau/Acknowledgements
Rydym yn hynod ddiolchgar am gyfranogiad yr artistiaid./We are extremely grateful for the participation of the artists

Hoffem ddiolch i'r rhai sydd wedi helpu i wireddu'r arddangosfa hon/We would like to thank those who have helped in the realisation of this exhibition:
Barry Attoe; The British Postal Museum & Archive; Collectors Corner, Llandudno; Frutta, Rome; Dominique Gardner; James Gardner; Christine Hieb; Martin Klosterfelde; Monk Family Collection.

18 Ebrill/April – 06 Gorffanaf/July 2014

Gennym ni bost
We've got mail

#mostyngallery
#wevegotmail
#mail

MOSTYN Cymru/Wales
12, Stryd Vaughan Street
Llandudno, LL30 1AB
Y Deyrnas Unedig
United Kingdom

www.mostyn.org

MOSTYN

Mae MOSTYN yn derbyn cymorth ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Gwasanaeth Celfyddydau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn rhan o rwydwaith orielau Plus TATE.

MOSTYN receives financial support from the Arts Council of Wales and Conwy County Borough Council Arts Services and is part of the Plus TATE network of galleries.